



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe

Swansea Bay University  
Health Board

# **Canllaw Arwyddion Corfforaethol - Mai 2020**

# Cyflwyniad

Yn gyffredinol, diffinnir arwyddion fel unrhyw arddangosiad graffeg neu destun sydd yn cyfleu rhyw fath o wybodaeth i gleifion, staff ac ymwelwyr.

At ddibenion y ddogfen ganllaw hon, maent wedi'u dosbarthu fel y mathau cyffredinol canlynol: arwyddion adnabod, cyfeirio, gwybodaeth gyffredinol a diogelwch. Ceir adran hefyd ar yr hyn y dylid ei wneud o ran arwyddion dros dro ac arwyddion contractiwr 3<sup>ydd</sup> parti.

Fel llawer o sefydliadau yng Nghymru, mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gydymffurfio ag ystod eang o ddeddfwriaeth, llawer mwy nag y mae pobl yn sylweddoli, o ran arwyddion mewnol ac allanol, a waeth a ydynt yn barhaol neu dros dro.

Mae arwyddion yn darparu popeth o'n brandio busnes a'n logos i wybodaeth a chyfarwyddiadau hanfodol i gleifion, ymwelwyr, staff ac wrth i ni dderbyn pob math o nwyddau, felly yn ogystal ag unrhyw gydymffurfiaeth gyfreithiol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi ymrwymo'n gadarn i wneud popeth o fewn ein gallu i barchu angen amrywiol am wybodaeth y rhai sy'n gweithio yn ein safleoedd a'r rhai sy'n ymweld â ni ym mha bynnag rinwedd

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion y mae'n rhaid i chi eu hystyried wrth ddylunio, argraffu a gosod arwyddion, ynghyd â chyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol. Dylid cyfeirio ato ar y cyd â dogfen **Canllawiau Cyfieithu** Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe: mae'r ddogfen honno'n rhestru **beth** mae'n rhaid ei wneud yn y ddwy iaith. Mae'r **Canllaw Arwyddion** hon yn rhoi ychydig o reolau sylfaenol i'w dilyn o ran **sut** y dylid creu arwyddion.

Mae'n cynnwys gwybodaeth a all fod yn ddefnyddiol ar gyfer staff cyffredinol, dylunwyr graffeg a chontractwyr, a all fod angen trefnu, dylunio a chodi arwyddion ar safleoedd y Bwrdd Iechyd.

## 1. Deddfwriaeth

- a) Safonau'r Gymraeg
- b) Deddf Cydraddoldeb 2010
- c) Rheoliadau Adeiladu

## 2. Mathau o Arwyddion

- a) Arwyddion Adnabod
- b) Arwyddion Cyfeirio
- c) Gwybodaeth Gyffredinol
- d) Diogelwch

## 3. Arwyddion Dros Dro

## 4. Dogfennau a Chysylltiadau Defnyddiol

# 1) Deddfwriaeth

Mae tair agwedd gyfreithiol bwysig i arwyddion, yn ymwneud â'u dyluniad a'u cynnwys, fel sydd wedi'u rhestru isod. Er eu bod yn dod o dan wahanol rannau o ddeddfwriaeth y DU a Chymru-benodol, mae'n rhaid i bob un ohonynt gael eu hystyried yn gyfartal ac weithiau gall cael y cydbwysedd cywir rhyngddynt fod yn anodd.

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r ddeddfwriaeth ac yn cynnig cyngor ymarferol ar sut i'w rhoi ar waith.

## a) Safonau'r Gymraeg

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hawliau a dyletswyddau o ran y Gymraeg yng Nghymru. Ar gyfer byrddau iechyd a sefydliadau iechyd eraill, mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 yn nodi'r gofyniad ar gyfer cydymffurfio a derbyniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ei hysbysiad cydymffurfio ym mis Tachwedd 2018.

Mae Safonau 47, 48, 111 a 112 yn cyfeirio'n benodol at arwyddion (parhaol neu dros dro) a'r drefn y mae'r ieithoedd yn cael eu harddangos. Felly, mae dylunio ac arddangos arwyddion dwyieithog yn ddyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gydymffurfio â hwy.

## b) Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, a'r Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio i ddileu gwahaniaethu.

Mae arwyddion da, clir a dealladwy (yn enwedig gyda'r defnydd o symbolau) yn helpu pobl ag amrywiaeth o anableddau ac anawsterau dysgu gweledol i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch safle ysbyty er enghraifft, mewn modd mor annibynnol â phosibl. Gall hefyd helpu pobl â nam ar eu clyw gan iddynt efallai ei chael hi'n anodd deall cyfarwyddiadau llafar mewn amgylchedd derbynfa swnllyd.

Mae canllawiau manwl ar Gydraddoldeb y tu hwnt i gwmpas y ddogfen hon, fodd bynnag mae rhai dulliau cyffredin o gyfuno gofynion o ran yr iaith Gymraeg a Chydraddoldeb yn golygu'n aml nad yw sefydliad yn cydymffurfio'n llwyr â'r naill set o ddeddfwriaeth neu'r llall.

Yn aml gall cydbwysio maint ffont darllenadwy a'r angen i gael arwyddion dwyieithog achosi problemau, ond gellir goresgyn hyn, neu o leiaf ei helpu, drwy newid y ffont yn hytrach na maint y ffont presennol.

Byddai lliwiau corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cael eu defnyddio ar y rhan fwyaf o arwyddion beth bynnag, ac mae gan symbolau cyferbyniad da a lliwiau cryf yn amlach na pheidio, ond mae'n hawdd anwybyddu'r materion hyn wrth gynhyrchu arwyddion lleol a/neu dros dro. Dylech osgoi coch a gwyrdd, yn enwedig lliwiau golau, oherwydd dallineb lliw coch/gwyrdd, sef y math mwyaf cyffredin o ddallineb lliw.

Defnyddir gwahaniaeth lliw yn aml i wahaniaethu rhwng Cymraeg a Saesneg, ac mae hyn yn iawn i'w wneud cyhyd â bod y materion cyferbyniad yn cael eu cadw mewn cof. Nid yw'n dderbyniol cael un o'r ddwy iaith mor olau fel na ellir ei darllen yn erbyn y cefndir, gan fod hyn yn mynd yn groes i'r egwyddor yng nghyfraith bod y ddwy iaith yn gyfartal ac y dylent fod yr un mor amlwg. Ac mae hyn yn cysylltu â'r trydydd darn o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i arwyddion.

### **c) Rheoliadau Adeiladu**

Caiff cyferbyniad o ran lliwiau ar arwyddion eu rheoli gan Rheoliadau Adeiladu, sy'n cysylltu â rhan M sy'n ymdrin â materion Anabledd, a gellir gweld y canllawiau presennol yn y codau ymarfer perthnasol (BS 8300:2018).

Mae'n bwysig cofio hyn yn ogystal â deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a Chydraddoldeb, gan fod rhaid i arwyddion ystyried yr hyn a elwir yn Werthoedd Adlewyrchiad Golau y testun a'r lliwiau cefndirol.

Fel enghraifft syml, cymharwch yr arwyddion canlynol.



Mae'r diffyg cyferbyniad yn gwneud hyn bron yn annarllenadwy, ond mae newid ysgafnder lliw'r cefndir ychydig a gwneud y ffont yn dywyllach (fel y dangosir isod), yn gwneud gwahaniaeth mawr yn syth i'w eglurder a'i darllenadwyedd.



Drwy ystyried pob un o'r tri darn o ddeddfwriaeth, bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'n safleoedd yn gallu darllen a deall ei holl arwyddion, boed yn gleifion, yn staff neu'n ymwelwyr, ac yn bwysicach, beth bynnag fo'u nodweddion unigol a'u hanghenion iaith.

## 2 Mathau o Arwyddion

### a) Arwyddion Adnabod

Dyma'r prif arwyddion sy'n dweud wrth ein cleifion, staff ac ymwelwyr lle maent ar hyn o bryd, hynny yw enw safle'r Bwrdd Iechyd, enw'r adeilad neu'r adran/uned. Maent yn arwyddion parhaol yn amlach na pheidio, ac wedi gorfod cael eu dylunio a'u cynhyrchu'n broffesiynol, felly mae cost sylweddol iddynt fel arfer.

Gellir gosod arwyddion adnabod allanol ar ochrau adeiladau neu ar bolion wrth fynedfeydd meysydd parcio er enghraifft.

Rhaid iddynt fod yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg uwchben neu i'r chwith o'r testun Saesneg, ac mae'n rhaid i unrhyw destun neu logos ychwanegol hefyd fod yn ddwyieithog ac mewn ffont clir a syml sy'n cyferbynnu'n gryf â'r lliw cefndir er mwyn i'r ddwy iaith gael eu darllen yn rhwydd gan bawb.

Os oes yn rhaid defnyddio logo penodol, bydd unrhyw rai sy'n perthyn i'r Bwrdd Iechyd ar gael fel rhai dwyieithog, ond ar gyfer unrhyw rai nad ydynt yn perthyn i'r Bwrdd Iechyd (fel un o sefydliad partner) efallai bod angen i chi ddefnyddio'r ddwy fersiwn iaith, neu Saesneg yn unig, os dyna'r cyfan sy'n bodoli. Rhaid i chi wirio hyn yn gyntaf fodd bynnag a pheidio â thybio bod y logo ond yn unieithog.

Mae rhai enghreifftiau o arwyddion adnabod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i'w gweld isod.



## b) Arwyddion Cyfeirio

Dyma'r arwyddion sy'n helpu cleifion, staff ac ymwelwyr i lywio eu hunain o amgylch ein safleoedd ac adeiladau, y tu allan iddynt ac unwaith y maent y tu mewn, ac yn helpu gyda danfon nwyddau i adrannau amrywiol hefyd. Maent yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o helpu pobl i gyrraedd y lleoliad gofynnol, ar adegau sy'n efallai achosi straen a gofid iddynt. Maent yn aml yn cario sawl cyrchfan mewn banc o arwyddion, ynghyd â saethau cyfeiriadol ac mae'n rhaid cymryd gofal gyda'r dyluniad er mwyn osgoi dryswch.

Rhaid iddynt fod yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg uwchben neu i'r chwith o'r testun Saesneg, ac mae'n rhaid i unrhyw destun neu logos ychwanegol hefyd fod yn ddwyieithog ac mewn ffont clir a syml sy'n cyferbynnu'n gryf â'r lliw cefndir er mwyn i'r ddwy iaith gael eu darllen yn rhwydd gan bawb.

Fel gyda'r mathau o arwyddion blaenorol, yn amlach na pheidio arwyddion parhaol ydynt, bu'n rhaid eu dylunio a'u gweithgynhyrchu yn broffesiynol, gyda chostau cysylltiedig iddynt.

Mae enghraifft isod o arwydd cyfeirio BIP Bae Abertawe, o Ysbyty Treforys.



Gall defnyddio symbolau lle bynnag y bo'n bosibl olygu eich bod yn cyfleu'r neges heb orfod poeni am faint y ffont ac arddangos y wybodaeth yn ddwyieithog - er enghraifft yr arwydd cyfeirio hwn sydd wedi'i baentio ar y ffordd.



Os yw hen arwydd/testun sydd wedi'i baentio ar y ffordd yn cael ei ail-baentio ac ar hyn o bryd mae'n uniaith Saesneg, rhaid ei ailosod yn ddwyieithog, heb eithriad. Os mai arwydd dwyieithog hŷn ydyw, bydd angen ei ail-wneud gyda'r ieithoedd yn y drefn a bennir gan y Safonau.

### c) Gwybodaeth Gyffredinol

Byddai'r arwyddion hyn yn cwmpasu bron popeth arall ac yn cynnwys, er enghraifft, amseroedd agor y Ward, arwyddion mynedfa/allanfa, arwyddion desg y dderbynfa, placiau swyddfa unigol (nid dim ond enwau'r adrannau neu'r unedau ond teitl swydd person penodol, waeth beth a oedd hyn yn feddygol, gweinyddol, cynnal a chadw neu'n rôl arall) a hyd yn oed rhai fel yr arwyddion drws gwthiwch/tynnwch.

Fel gyda'r mathau o arwyddion blaenorol, yn amlach na pheidio arwyddion parhaol ydynt, ac wedi gorfod cael eu dylunio a'u cynhyrchu'n broffesiynol, felly mae cost ynghlwm iddynt.

Rhaid iddynt fod yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg uwchben neu i'r chwith o'r testun Saesneg, ac mae'n rhaid i unrhyw destun neu logos ychwanegol hefyd fod yn ddwyieithog ac mewn ffont clir a syml sy'n cyferbynnu'n gryf â'r lliw cefndir er mwyn i'r ddwy iaith gael eu darllen yn rhwydd gan bawb.

### d) Diogelwch

Mae'r arwyddion hyn yn hanfodol ar gyfer diogelwch cleifion, ymwelwyr a staff a gallant fod yn arwyddion rhybudd neu arwyddion gwahardd.

Byddant wedi'u lleoli mewn mannau strategol i roi rhybudd o berygl. Maent yn cynnwys arwyddion allanfa, arwyddion allanfa dân, arwyddion diogelwch tân a manylion am offer tân. Mewn ysbytai gallant hefyd rybuddio am belydrau-x, ocsigen neu gemegau ac ymbelydredd. Y tu allan gallant gyfeirio at faterion adeiladu.

Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys arwyddion gorfodol, sydd fel arfer yn cael eu nodweddu gan liw a siâp arbennig.



Mae hwn yn gategori o arwyddion sy'n gallu, ac yn elwa, o ddefnyddio symbolau a bydd llawer o symbolau cyffredin yn gyfarwydd i bawb.

### 3) Arwyddion Dros Dro

Mae iechyd a diogelwch pob unigolyn ar safleoedd amrywiol y Bwrdd Iechyd yn dod gyntaf mewn argyfwng, nid oes amheuaeth am hynny, ond weithiau bydd angen argraffu arwydd i ddangos i bobl, er enghraifft, nad yw lifft yn gweithio neu fod yn rhaid iddynt ddefnyddio mynedfa wahanol i'r arfer.

Mae'r pethau hyn fel arfer yn digwydd oherwydd bod sefyllfa sydyn yn datblygu sydd angen delio â hi'n gyflym, ond yn aml dyma le mae'r gofynion dwyieithog yn cael eu hesgeuluso.

Ar gyfer arwyddion a gynhrychir yn lleol, hynny yw rhai y mae'n bosibl y bydd angen i chi argraffu un bore i'w gosod ar lifft, drws, hysbysfwrdd ac ati, bydd mewnrwyd y Bwrdd Iechyd yn adeiladu stoc o arwyddion dwyieithog safonol i chi eu hargraffu pryd bynnag y cyfyd yr angen. Os nad yw'r arwydd rydych eisiau ar gael, cysylltwch â'r Tîm Cyfieithu gan nodi'r rhesymau dros yr arwydd brys, a gellir ychwanegu hwnnw at y safle mewnrwyd hefyd.

Os oes angen arwyddion dros dro ar gyfer gwaith cynnal a chadw, naill ai'n fewnol neu'n allanol, ac efallai y bydd contractwr trydydd parti ar y safle'n ymgymryd â'r gwaith hwnnw, rhaid i'r contract â'r trydydd parti hwnnw nodi bod ei arwyddion yn ddwyieithog.

## 4 Dogfennau a Chysylltiadau Defnyddiol

- Swyddog Iaith Gymraeg- **(i'w gadarnhau pan fydd mewn swydd)**
- Tîm Cyfieithu - Ffôn: 44331/43329 e-bost ABM.WelshTranslation@wales.nhs.uk
- Canllawiau Cyfieithu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (o fewn y dudalen Cymorth Iaith Gymraeg ar y fewnrwyd)  
<http://howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=743&pid=77542>
- Tîm Darlunio Meddygol
- Canllawiau Hygyrchedd ar gyfer Arwyddion (o fewn y llyfrgell dogfennau cyffredinol ar y fewnrwyd)  
<http://howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=743&pid=39045>
- Templedi Arwyddion Dwyieithog (o fewn y dudalen Cymorth Iaith Gymraeg ar y fewnrwyd)  
<http://howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=743&pid=77542>